**Eluned Morgan AS/MS**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mabon ap Gwynfor AS
Aelod Etholaethol o'r Senedd Dwyfod Meirionnydd

Mabon.Ap.Gwynfor@Senedd.Cymru

18 Mehefin 2024

Annwyl Mabon

Diolch ichi am eich cwestiynau yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 05 Mehefin ynghylch gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Hoffwn egluro rhywfaint o'r wybodaeth a roddais yn ystod ein trafodaeth.

Dywedais fod y bwrdd iechyd wedi cynnal ymarfer recriwtio ac y byddai'n croesawu 17 o fyfyrwyr bydwreigiaeth newydd ym mis Medi 2024, yn ogystal â Chyfarwyddwr Bydwreigiaeth yn ddiweddarach y mis hwn. Hoffwn gadarnhau na fydd y rhain yn fyfyrwyr bydwreigiaeth ond, yn hytrach, yn fydwragedd sydd newydd gymhwyso sy'n ymuno â'r gwasanaeth, gan helpu i gryfhau'r gweithlu presennol ymhellach. Mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi'i benodi a bydd yn dechrau yn ei swydd arddechrau mis Gorffennaf 2024.

Esboniais fod fy swyddogion wedi cyfarfod â'r bwrdd iechyd ar 03 Mehefin 2024 fel rhan o'r trefniadau uwchgyfeirio monitro uwch a bod diweddariad wedi'i ddarparu ynghylch ailagor y ganolfan geni yn y cartref a gwasanaethau cymunedol. Hoffwn egluro mai adfer y gwasanaeth geni yn y cartref ac ailagor Canolfan Eni Castell-nedd Port Talbot y mae'r bwrdd iechyd yn cwblhau cynlluniau ar ei gyfer, yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus trafodaethau gyda'r undebau perthnasol a chymeradwyaeth gan y Bwrdd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd ac rwyf yn gobeithio y bydd y cywiriad hwn yn cael ei atodi at Gofnod y Trafodion.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.